# RaW

BBC

# Pecyn y cwis feistr

bbc.co.uk/cymru/raw

RaW BBC

# Rownd 1 - Chwaraeon

1 Pa chwaraewr rygbi sy'n cael ei adnabod fel 'Jiffy' gan ei gyd-chwaraewyr? ... Jonathan Davies

2 Pa chwaraewr rygbi o Loegr sy'n rhannu ei enw gyda char clasurol? ... Austin Healey

3 O ba ynysoedd oddi ar arfordir deheuol Japan y mae Karate'n deillio? ... Okinawa

4 Pa ffilm sy'n enwog am ei cherddoriaeth oedd yn dilyn helyntion dau athletwr yng Ngemau Olympaidd 1924? ... Chariots of Fire

5 Beth oedd enw'r rhaglen deledu o'r 80au oedd yn dangos cystadleuaeth lle'r oedd beiciau modur yn cael eu gyrru dros bob math o rwystrau? ... Kickstart

6 Beth oedd enw Cymraeg y rhaglen lle'r oedd Cymru i'w gweld yn cystadlu mewn gemau gwirion yn erbyn timau o wledydd eraill yn Ewrop? ... Gemau Heb Ffiniau (Jeux Sans Frontieres)

7 Beth yw llysenw tîm pêl-droed Fulham? ... The Cottagers

8 Ym mha flwyddyn daeth pob un o'r pum tîm yn y Pum Gwlad yn gydradd gyntaf gyda'i gilydd? ...1973

9 Beth oedd enw'r sglefriwr iâ drefnodd fod rhywun yn ymosod ar ei chyd-gystadleuydd Nancy Kerrigan o flaen Gemau Olympaidd Gaeaf 1994? ... Tonya Harding

10 Yn ôl yr hanes, mynnu gorffen gêm o beth wnaeth Syr Francis Drake cyn gadael i wynebu Armada Sbaen? ... Bowls

# Rownd 2 - Adloniant

1 Yn lle mae Wakestock yn cael ei gynnal? ... Abersoch

2 Pa liw oedd pafiliwn yr Eisteddfod cyn iddo droi'n binc? ...Glas a Melyn

3 Pa Gymraes oedd partner David Jason a llais Wil Cwac Cwac? ... Myfanwy Talog

4 Beth oedd enw'r gwningen yn Bambi? ... Thumper

5 Beth oedd enw'r hofrennydd du o'r gyfres 80au oedd yn cyfateb i Knight Rider yn yr awyr?

... Airwolf

6 Beth oedd enw'r rhaglen lle'r oedd Anneka Rice yn hedfan o le i le mewn hofrennydd?

... Treasure Hunt

7 Pwy oedd yn cyflwyno Blockbusters? ... Bob Holness

8 Beth yw enw ci'r Simpsons? ... Santa's Little Helper

9 Roedd Dave Mustaine yn aelod o ba fand metel trwm enwog arall cyn cael ei ddisodli a ffurfio Megadeth? ... Metallica

10 Pwy gyfansoddodd y gerddoriaeth enwocaf ar gyfer Ode to Joy ... Beethoven

# Rownd 3 - Cyffredinol

1 Pa wlad yn Ne America yw'r fwyaf poblog? ... Brasil

2 Pa liwiau sydd ar faner Gwlad yr Iâ? ... Coch, glas a gwyn

3 Prifddinas pa wlad yw Ulaanbaatar? ... Mongolia

4 Cywir neu anghywir - mae'r sêr ar faner yr Unol Daleithiau yn symboleiddio'r dynion a lofnododd y 'Declaration of Independence'. ... Anghywir

5 Pwy oedd y cyntaf i gyhoeddi fod y planedau yn troi o gwmpas yr haul? ... Copernicus

6 Ym mha ardal mae champagne yn cael ei gynhyrchu? ... Champagne

7 Pa iaith sydd agosaf at y Gymraeg, Gwyddeleg neu Lydaweg? ... Llydaweg

8 Enwch wneuthurwr ceir o Sweden sydd hefyd yn draddodiadol wedi adeiladu awyrennau.

... Saab

9 Pwy yw cyd-sefydlydd a CEO cwmni cyfrifiaduron Apple? ... Steve Jobbs

10 Ym mha flwyddyn y cyhoeddwyd cyfieithiad William Morgan o'r Beibl? ... 1588

# Rownd 4 - Anagramau

Rhowch y llythrennau isod yn y drefn gywir

1 Omt Shkans ...Tom Hanks

2 Gerti Sdowo ...Tiger Woods

3 Rolca Devorrman ... Carol Vorderman

4 Bartel Eineints ...Albert Einstein

5 Ermai Urice ... Marie Curie

6 Onseln Delnama ... Nelson Mandela

7 Caisa Entown ... Isaac Newton

8 Vidda Doyll Eggroe ... David Lloyd George

9 Jonnes Nuttbo ... Jenson Button

10 Gerro Derefer ... Roger Federer